

Pleser yn erbyn llawenydd

“A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd.” (adn. 13)

Beth am ddarllen Rhufeiniaid 15:1–13 ac yna myfyrïo

Mae llawer o bobl yn camgymryd pleser am lawenydd, felly, heddiw rydyn ni am edrych ar y gwahaniaeth rhyngddynt. Mae gan y rhai nad ydyn nhw'n Gristnogion eu pleserau. Yn wir, pe bydden ni'n gwranddo arnynt, hawdd fyddai credu mai dim ond y nhw sy'n gwybod beth ydy pleser.

Mae pleser yn dibynnu ar amgylchiadau. Mae'n mynnu bod amodau bywyd yn iach, neu o leiaf yn garedig, a gall gael ei ddwyn yn ddigon hawdd gan rywbeth mor syml â chur pen. Mae llawenydd Cristnogol, y llawenydd mae Iesu'n ei roi, yn annibynnol ar iechyd neu amgylchiadau. Mae i'w weld bob amser mewn Cristnogion hyd yn oed pan fydd cryfder ac iechyd a ffrindiau wedi mynd – pan fydd amgylchiadau nid yn unig yn angharedig ond hefyd yn anobeithiol. Unwaith eto, mae pleserau'n porthi ond nid yn bodloni. Mae'n hawdd cael gormod o bleser, a phan fyddwn wedi cael ein gwala a'n gweddill, bydd atgasedd yn ei amlygu ei hun. Dydy'r galon ddim yn crefu mwyach am yr hyn y bu'n crefu amdano. Ond dydy llawenydd, ar y llaw arall, byth yn achos syrffed. Dywed y Cristion: “Mae gennyf ddigon ond nid gormod i ddyheu am fwy.”

Ac yn olaf, mae pleser bob amser yn arwynebol. Mae'n bodoli drwy anwybyddu anawsterau a phroblemau diateb bywyd. Mae fel rhialtwch y Nadolig mewn cartref lle nad oes ffydd yng Nghrist – parti dibwrpas. Gall hwyl a miri fod yno ond, o dan yr wyneb mae yna galon wag, ddolurus.

Mae llawenydd, llawenydd goruwchnaturiol, yn wahanol iawn. Mae'n byrlymu o fodlonrwydd mewnol, dwfn. Gall fod yn orfoleddus, gall ffrwydro'n chwerthin, gall hyd yn oed ei fynegi ei hun mewn dawns neu suddo i dangnefedd, ond ym mha ffurf bynnag y bydd yn ei amlygu ei hun, mae'n meddiannu'r bersonoliaeth gyfan. Mae llawenydd yn wynfyd, gwynfyd pur. A dim ond oddi wrth Iesu mae'n tarddu.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 119:9–16; 33–40; Preg. 2:1–11; Math. 13:44–46; Iago 1:2–3; 12

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Ym mha beth oedd y salmydd yn ymfrydu ac yn llawenhau?
2. Beth oedd yn ddiystyr yng ngolwg awdur Llyfr y Pregethwr?

Gweddi

O Dad, dw i mor ddiolchgar bod llawenydd dy Fab yn eiddo i minnau'n awr – llawenydd sy'n gallu sefyll yn wyneb unrhyw beth. Dw i'n falch hefyd ei fod yn llawenydd sydd, nid yn unig yn para, ond sy'n mynd yn fwy cyfoethog ac yn llawnach drwy'r amser. Amen.